
Campus Services
Gwasanaethau'r Campws

# Croeso i Neuadd Aberconwy



## Casglu Allwedi

Mae'r dderbynfa ar agor rhwng 08:00 a 21:45, ddydd Llun i ddydd Gwener ac eithrio ar wyliau banc, a rhwng 9:00 a 21:45 ar benwythnosau. Bydd allweddi ar gael i'w casglu ar ôl 15.00.

Os byddwch yn cyrraedd y tu allan i oriau'r dderbynfa, cysylltwch â'r Tîm Cynadleddau a Digwyddiadau (conference@caerdydd.ac.uk), er mwyn gwneud trefniadau eraill.

I'r rheini sydd wedi gwneud cynlluniau i gyrraedd yn hwyr cysylltwch â'r tîm Diogelwch ar ôl cyrraedd:
+44 (0) 29 20 87 4444.

Mae'r dderbynfa yn **Neuadd Aberdâr**, Heol Corbett, Caerdydd, CF10 3UP.
Ffôn: +44 (0)29 2087 6476.

## Parcio

Nodwch na chewch parcio wrth y dderbynfa oni bai eich bod yn casglu/dychwelyd allweddi. Mae'r dderbynfa ar y lôn wrth ochr Neuadd Aberdâr. Byddwch yn ymwybodol nad oes mannau parcio ar y safle. Mae'r maes parcio agosaf ar Rodfa Colum, y gallwch ei ddefnyddio wrth ymweld â ni.

Y cyntaf i'r felin fydd hi wrth barcio ar y campws. Codir tâl am barcio.
Am fanylion ar sut i gadw lle ymlaen llaw a thalu am barcio, gweler Parcio i Breswylwyr

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, e-bostiwch conference@caerdydd.ac.uk

## Gwybodaeth Leol

Os byddwch yn teithio i Gaerdydd ar fws neu drên, mae'n cymryd tua hanner awr i gerdded o orsaf Caerdydd Canolog i Rodfa Colum. Cathays yw'r orsaf agosaf, ac mae'n cymryd tua 10 munud i gerdded oddi yno i'r neuadd. Fel arall, mae tacsis ar gael yng nghanol y ddinas, mae'r prisiau'n amrywio gan ddibynnu ar y pellter a llif y traffig. Cofiwch ofyn i'r gyrrwr eich gollwng ger y dderbynfa yn Adeilad Julian Hodge, Rhodfa Colum.

Cewch wybodaeth am deithio ar fysiau drwy glicio'r ddolen ganlynol: **Bws Caerdydd**

# Ar yr M4 o'r Gorllewin

- Gadewch yr M4 wrth gyffordd 32 a dilynwch arwyddion yr A470 tuag at Gaerdydd.
- Rhybudd: Mae camerâu cyflymder ar hyd yr A470
- Wrth i chi agosáu at ganol y ddinas, byddwch yn cyrraedd Cyfnewidfa/Trosffordd Gabalfa
- Ewch drosti i Heol y Gogledd (yr A470 o hyd)
- Ar ôl tua milltir bydd y ffordd yn ymrannu. Ewch ar y ffordd i'r dde a mynd yn eich blaen ar hyd Heol y Gogledd. Wrth yr ail set o oleuadau traffig, trowch i'r chwith ar Heol Corbett
- Bydd Neuadd Aberdâr ar y chwith (Rhif 60)
- Ar ôl casglu eich allweddi o'r dderbynfa, ewch yn eich blaen ar hyd Heol Corbett ac ewch i'r chwith wrth y gyffordd ac ymlaen i Heol Colum. Ewch yn eich blaen am ychydig ar hyd Heol Colum a throwch i'r dde yn syth ar ôl y groesfan sebra i Rodfa Colum.

# Ar yr M4 o'r Dwyrain

- Gadewch yr M4 ar Gyffordd 29 (dilynwch arwyddion Dwyrain a De Caerdydd), cyn ymuno â thraffordd yr A48(M)
- Pan ddaw'r draffordd i ben, ewch yn eich blaen ar yr A48. Wrth ddod i mewn i Gaerdydd, ewch yn syth ymlaen (dilynwch arwyddion Canol y Ddinas)
- Rhybudd: Mae camerâu cyflymder ar hyd yr A48
- Arhoswch yn y lôn chwith (arwyddion Canol y Ddinas A470), yna ewch oddi ar y gylchfan ar yr ail ffordd ymadael i gyfeiriad Heol y Gogledd
- Ewch yn eich blaen, cyn ymuno â Heol y Gogledd - A470
- Rhybudd: Mae camerâu cyflymder ar hyd yr A470
- Ar ôl tua milltir bydd y ffordd yn ymrannu. Ewch ar y ffordd i'r dde a mynd yn eich blaen ar hyd Heol y Gogledd. Wrth yr ail set o oleuadau traffig, trowch i'r chwith ar Heol Corbett
- Bydd Neuadd Aberdâr ar y chwith (Rhif 60)
- Ar ôl casglu eich allweddi o'r dderbynfa, ewch yn eich blaen ar hyd Heol Corbett ac ewch i'r chwith wrth y gyffordd ac ymlaen i Heol Colum. Ewch yn eich blaen am ychydig ar hyd Heol Colum a throwch i'r dde yn syth ar ôl y groesfan sebra i Rodfa Colum.

Campus Services

Gwasanaethau'r Campws

Cewch hyd i'r wybodaeth yma ar y gwefannau canlynol hefyd (CF10 3UP yw'r côd post ar gyfer eich SatNav):
This information can also be found via the following websites (SatNav postcode is CF10 3UP):

**www.rac.co.uk/route-planner**
**www.theaa.com/travelwatch/planner_main.jsp**

Neuadd Aberconwy cyfeirnod map 58 / Neuadd Aberdâr map 60
Aberconway Hall map ref 58 / Aberdare Hall map ref 60

